# GweithdaiAber:

## Gwleidyddiaeth Ryngwladol

**Dod â'n harbenigwyr academaidd at eich dysgwyr**



1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Beth yw GweithdaiAber?

**Mae GweithdaiAber yn rhoi cyfle i'ch dysgwyr gael trafod â'n staff academaidd cyfeillgar a chael eu dysgu ganddynt.**

Bydd ein staff yn trafod deunydd safonol yn y pwnc, ac yn ogystal â sicrhau bod y disgyblion yn dysgu mwy am y maes, y nod hefyd yw eu hannog i ystyried mynd ymlaen i astudio Gwleidyddiaeth Ryngwladol ac ystadegaeth yn y dyfodol.

Mae gennym amrywiaeth o ddarlithoedd/gweithdai â gogwydd academaidd iddynt i'w cynnig mewn nifer o wahanol bynciau. Er na ellir gwarantu y bydd pob gweithdy wastad ar gael, mae GweithdaiAber yn hyblyg:

- **Gallwn eu hamrywio o ran eu hyd**
- **Maent yn addas i gynulleidfaoedd bach neu fawr**
- 12-13 **Cyflwynadwy i grŵpiau blwyddyn 12-13**
- **Ar gael dros y we**
- **Ar gael wyneb-yn-wyneb yn yr ysgol neu'r coleg**
- **Ar gael ar gampws Prifysgol Aberystwyth**
- **Ar gael i ddysgwyr heb unrhyw wybodaeth flaenorol am y pwnc, yn ogystal â'r rhai sydd â diddordeb yn y maes. Nid oes rhaid i ddysgwyr fod yn astudio'r Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn yr ysgol neu'r Coleg.**


I archebu gweithdy neu i gael gwybod mwy, anfonwch e-bost i **aberworkshops@aber.ac.uk**

# Cyflwyniad i'r Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol

**Wedi'i sefydlu ym 1919, dyma'r Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol gyntaf yn unrhyw le yn y byd! Cafodd ei chreu mewn cyfnod o helbul ac ansicrwydd mawr er mwyn astudio a hyrwyddo diogelwch, heddwch a chyfiawnder. Mae'r ymchwil a'r dysgu yn yr Adran heddiw yn parhau i ganolbwyntio ar y materion pwysig hyn.**

Rydym yn cyfuno'r enw da sydd gennym yn rhyngwladol am feddwl yn arloesol am wleidyddiaeth a chysylltiadau rhyngwladol â chymuned glòs o staff a myfyrwyr. Mae ein staff yn addysgu yn eu maes arbenigedd, felly mae myfyrwyr yn dysgu am y pynciau a'r syniadau cyffrous diweddaraf.

Mae ein cyrsiau yn hyblyg ac amrywiol. Rydyn ni'n cynnig cynlluniau gradd mewn gwleidyddiaeth a chysylltiadau rhyngwladol, yn ogystal â newid hinsawdd, hanes milwrol a strategaeth, cudd-wybodaeth a diogelwch. Mae ein modiwlau yr un mor amrywiol: mae myfyrwyr yn dewis o tua 20 modiwl y flwyddyn ym mlynyddoedd dau a thri, gan deilwra eu cwricwlwm i weddu i'w diddordebau. Gall myfyrwyr hefyd ymuno â'n Gêm Efelychu Argyfwng flynyddol, treulio semester yn astudio dramor, a phrofi gwleidyddiaeth o ddydd i ddydd drwy'r Cynllun Lleoliadau Seneddol yn San Steffan neu Senedd Cymru. Mae'r holl gynlluniau hyn yn rhoi dysgu ar waith ac yn gwella cyflogadwyedd myfyrwyr!



# Gweithdai a gaiff eu cynnig drwy GweithdaiAber

## Sut mae rhoi cyfle cyfartal i bawb? – Dr Huw Lewis

CY MP Rh

Mae'r egwyddor o gyfle cyfartal yn un poblogaidd iawn heddiw. Bydd arweinwyr gwleidyddol o bob plaid – ar y chwith a'r dde – yn hawlio bod eu polisïau yn rhai sy'n hybu cyfle cyfartal. Ond beth yw ystyr cyfle cyfartal? A beth sydd angen gwneud i sicrhau bod gan bawb gyfle cyfartal i fyw bywyd da? Trwy gyfrwng gweithgareddau trafod, amcan y sesiwn hon fydd cyflwyno'r myfyrwyr i dri dehongliad gwahanol o gyfle cyfartal ac ystyried eu goblygiadau gwleidyddol gwahanol.

**Themâu Maes Llafur Safon Uwch:** Cysyniadau a damcaniaethau gwleidyddol; rhyddid a chydraddoldeb; dadleuon ynghylch rôl y wladwriaeth yn sicrhau cydraddoldeb; Rhyddfrydiaeth Glasurol; Rhyddfrydiaeth Fodern; Sosialaeth; Ceidwadaeth.

## Peace-making in the Middle East – Dr Jim Vaughan

EN MP Rh

Pam mae hi wedi bod mor anodd sicrhau heddwch yn y Dwyrain Canol? Mae'r anghydfod Arabaidd-Israelaidd wedi bod yn un o'r gwrthdaro mwyaf afreolus, proffil uchel a chynhyrfiol yn y cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Mae wedi ehangu y tu hwnt i'w diriogaeth uniongyrchol i ddenu pwerau rhanbarthol eraill, uwchbwerau byd-eang, y Cenhedloedd Unedig, cyrff anllywodraethol, a gweithredwyr ac ymgyrchwyr o bob cwr o'r byd. Heddiw rydym yn gweld materion wrth wraidd yr anghydfod hwn yn dylanwadu ar wrthdaro Israelaidd-Palestinaidd ac Iranaidd-Israelaidd. Bydd y gweithdy rhyngweithiol hwn yn ystyried deinameg gymhleth y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol, yn nodi'r materion craidd a'r meini tramgwydd wrth wraidd y broses heddwch, ac yn dychmygu atebion amgen i bobl y rhanbarth.

**Themâu maes llafur Safon Uwch::** Sofraniaeth; Gwladwriaeth genedlaethol; Gweithredwyr nad ydynt yn wladwriaethau; Globaleiddio; Llywodraethu byd-eang; y Cenhedloedd Unedig

## Crisis of Democracy in the USA? – Dr Jenny Mathers

EN MP Rh

Cyfeirir yn aml at yr UDA fel esiampl arwyddocaol o ddemocratiaeth, ond mae digwyddiadau yn y blynyddoedd diweddar wedi amlygu heriau difrifol i sefydliadau democrataidd yr Unol Daleithiau ac i ddiwylliant democratiaeth America. Mae'r gweithdy hwn yn ystyried system wleidyddol yr UDA, trwy drafod themâu cyfoes allweddol, sef: y polareiddio rhwng y ddwy brif blaid wleidyddol; hawliau pleidleiswyr ac atal pleidleiswyr; a goblygiadau 6ed o Ionawr 2021. Mae'r sesiwn hon yn un gwbl ryngweithiol, ac yn edrych y tu ôl i benawdau'r newyddion i archwilio ystyr democratiaeth a'r berthynas rhwng sefydliadau'r wladwriaeth a diwylliant democrataidd.

**Themâu Maes Llafur Safon Uwch:** Llywodraeth a gwleidyddiaeth UDA; Proses etholiadol a democratiaeth uniongyrchol; Pleidiau gwleidyddol; Hawliau sifil.

## Trade Wars and Current Crises in International Politics – Dr Charalampos Efstathopoulos

EN MP Rh

Mae masnach ryngwladol yn chwarae rhan hanfodol mewn globaleiddio economaidd ac yn dylanwadu ar y byd rydyn ni'n byw ynddo. Mae rhyfeloedd masnach wedi dwysáu ers ail-ethol Donald Trump a'i arfer o ysgogi rhwystrau tariff yn erbyn nifer o wledydd. Mae'r gweithdy hwn yn ystyried materion ac argyfyngau cyfredol sy'n ymwneud â masnach ac yn eu gosod mewn cyd-destun hanesyddol a gwleidyddol ehangach. Bydd y sesiwn ryngweithiol yn ystyried trobwyntiau allweddol yn hanes y system fasnachu amlochrog a'i sefydliadau cyn troi at achosion rhyfeloedd masnach, gan dynnu sylw at y rhesymau gwleidyddol ac economaidd dros eu tarddiad, a'r penblethau y maent yn eu creu ar gyfer yr Unol Daleithiau, Tsieina, yr UE a'r DU.

**Themâu maes llafur Safon Uwch:** Globaleiddio; Gwladwriaeth genedlaethol; Llywodraethu byd-eang; Rhaniad Gogledd-De; Sefydliad Masnach y Byd

### Allwedd:

- EN Gellir ei gyflwyno yn Saesneg
- CY Gellir ei gyflwyno yn Gymraeg
- MP Gellir ei gyflwyno mewn person
- Rh Gellir ei gyflwyno yn rhithiol

## Teyrnas Unedig? - Dr Elin Royles

CY EN MP Rh

Er y byddai'r sefyllfa bron yn anghredadwy genhedlaeth yn ôl, heddiw mae dadl wirioneddol ynghylch a all undeb y Deyrnas Gyfunol oroesi. Mae ffactorau amrywiol yn cyfrannu i'r sefyllfa hon, gan gynnwys: twf mudiadau annibyniaeth (yn enwedig yn yr Alban, ond hefyd yng Nghymru); diddordeb cynyddol mewn ail-uno ar draws ynys Iwerddon; ac ymdeimlad ymhlith rhai pleidleiswyr Seisnig bod Lloegr yn cael ei thrin yn annheg o fewn yr undeb. Mae rhaniadau gwleidyddol a chyfansoddiadol hefyd wedi cael eu dwysáu gan Brexit a phandemig COVID-19. Gan ddefnyddio dulliau rhyngweithiol, mae'r sesiwn hon yn archwilio gwahanol ddadleuon a gyflwynwyd i gefnogi undod y Deyrnas Unedig a gyflwynwyd gan wleidyddion blaenllaw gan gynnwys Boris Johnson, Rishi Sunak, Gordon Brown a Mark Drakeford. Mae'n archwilio eu gwahanol weledigaethau ar gyfer dyfodol y Deyrnas Unedig ac yn gwahodd myfyrwyr i werthuso eu cynigion.

**Themâu Maes Llafur Safon Uwch:** Cyfansoddiad anysgrifenedig y DU; Sofraniaeth seneddol; Datganoli; Cenedlaetholdeb ac unoliaetholdeb mewn gwahanol rannau o'r DU.

## Russian aggression against Ukraine and the role of nuclear weapons – Dr Jan Ruzicka

EN MP Rh

Sut allwn ni ddeall y cymhellion y tu ôl i ymosodiad Rwsia ar Wcráin? Mae straeon newyddion a sylwebyddion yn aml wedi canolbwyntio ar uchelgais bersonol neu gyflwr seicolegol Vladimir Putin wrth egluro gweithredoedd Rwsia. Efallai mai rhan o'r ateb yw'r rhain – ond beth arall allai fod yn digwydd? Mae'r gwrthdaro yn Wcráin wedi ein hatgoffa bod arfau niwclear yn dal yn berthnasol yng ngwleidyddiaeth y byd. Mae bygythiadau niwclear Rwsia wedi sbarduno sgyrsiau newydd am y risg o wrthdaro niwclear a'r rôl y mae arfau niwclear yn ei chwarae i wladwriaethau a'u diogelwch yn yr 21ain ganrif. Yn y gweithdy hwn, byddwn yn archwilio pam mae gwladwriaethau'n mynd i ryfel yn yr 21ain ganrif, rhai o'r esboniadau posibl am ymddygiad Rwsia, ac a oes unrhyw ragolygon ar gyfer heddwch yn Wcráin.

**Themâu Maes Llafur Safon Uwch:** Gwleidyddiaeth fyd-eang; Arwyddocâd pwerau sy'n ymgryfhau (Rwsia); Materion byd-eang cyfoes (gwrthdaro).

## Allwedd:

- EN Gellir ei gyflwyno yn Saesneg
- CY Gellir ei gyflwyno yn Gymraeg
- MP Gellir ei gyflwyno mewn person
- Rh Gellir ei gyflwyno yn rhithiol

I archebu gweithdy neu i gael gwybod mwy, anfonwch e-bost i **aberworkshops@aber.ac.uk**






Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol,
Prifysgol Aberystwyth,
Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 3FE

+44 (0)1970 62 1537
gwleidyddiaeth@aber.ac.uk
/InterpolAber
/interpolaber
/interpolaber
InterPolAber

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan yr Adran Farchnata Byd-eang
a Denu Myfyrwyr, Prifysgol Aberystwyth 2025.

113134-01.25
Credyd delweddaeth: freepik.com/stories